**Atodiad**

**Pwyllgor Safonau 09.06.25 - Honiadau yn erbyn aelodau**

---

**Cwyn 202407933**

Bod aelod o gyngor tref wedi gwneud adroddiad ffug i'r Heddlu am yr Achwynydd.

**Penderfyniad**

Peidio ag ymchwilio. Nid oedd yr aelod yn gweithredu fel aelod ar y pryd. Ystyriwyd ymhellach a allai fod wedi dwyn anfri. Daeth yr heddlu i'r casgliad bod tystiolaeth annigonol ac nad oeddent am fynd ar drywydd y mater. Nid oedd unrhyw awgrym na chasgliad felly bod yr adroddiad a wnaed yn ffug neu'n wastraff amser yr Heddlu.

---

**Cwyn 202408934**

Bod aelod o gyngor tref wedi ffugio cofnodion yn sgil ei chyflogaeth. Honnwyd hefyd ei bod wedi methu a datgan buddiant pan drafodwyd ariannu cynllun lleol.

**Penderfyniad**

Peidio ag ymchwilio. Nid oedd yr aelod yn gweithredu yn rhinwedd ei swyddogaeth fel aelod ac nid oedd tystiolaeth wedi ei gyflwyno i awgrymu bod yr ymddygiad honedig, oedd heb ei brofi, wedi dwyn anfri ar y cyngor. Ni chyflwynwyd tystiolaeth chwaith i gefnogi’r honiad bod yr aelod wedi methu datgelu buddiant.

---

**Cwyn 202409315**

Cwyn gan aelod o’’r cyhoedd, bod aelod o gyngor tref wedi ymddwyn mewn modd ymosodol mewn cyfarfod gyda staff busnes lleol ac hefyd wedi methu datgelu bod gan aelod arall fuddiant personol mewn cysylltiad â’r busnes yng nghyfarfod blynyddol y cyngor. Hefyd honnwyd ei fod, mewn cyfarfod gwahanol, wedi gwneud cwynion blinderus i HMRC am y cwmni. Yn olaf honnwyd bod yr aelod wedi bod yn gweiddi a rhegi ar glerc y cyngor.

**Penderfyniad**

Peidio ag ymchwilio. Ni chyflwynywd tystiolaeth ddigonol i gefnogi’r honiadau.

---

**Cwyn 202409316**

Bod aelod o gyngor tref yn ceisio niweidio cwmni lleol drwy gamddefnyddio ei swydd fel cynghorydd. Honnodd yr Achwynydd fod yr Aelod wedi aflonyddu ar staff ac wedi ceisio eu

cael i adael eu swyddi. Honnwyd hefyd fod yr Aelod wedi gwneud cwynion maleisus a blinerus am y cwmni i Adnoddau Naturiol Cymru a'i fod wedi rhoi adroddiadau negyddol am y busnes yng nghyfarfodydd y Cyngor, tra'n methu ag adrodd ar newyddion cadarnhaol.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad. Ni chyflwynwyd tystiolaeth i gefnogi'r gŵyn, ac ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio oni bai bod tystiolaeth weddol gref i awgrymu y gallai'r aelod dan sylw fod wedi torri'r Cod. Cyfrifoldeb yr Achwynydd yw darparu tystiolaeth uniongyrchol i gefnogi eu cwyn.